



Promoting improvements  
in policing to make  
everyone safer

## Pa mor effeithlon mae'r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

### Trosolwg

Aseswyd Heddlu De Cymru fel llu da o ran effeithlonrwydd y ffordd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu. Mae gan y llu ddealltwriaeth ardderchog o'r galw ac mae'n ei leoli wrth galon y ffordd mae'n gweithredu, cynllunio a gweithio gyda phartneriaid i nodi, rhagweld a mynd i'r afael â galw, a sut mae'n adleoli adnoddau i ddiwallu galw. Mae ganddo systemau yn eu lle i ddeall bylchau a galluoedd ei weithlu, sy'n golygu y gall gydweddu sgiliau gweithredol â galw mewn amser real, ac y gall cynllunio ac adleoli adnoddau yn y tymor hwy. Dylai cynlluniau buddsoddi'r llu arwain at effeithlonrwydd mwy a gwelliant yn y gwasanaeth, ond ar hyn o bryd mae'r llu'n dangos bwlch yn ei gyllideb o 2017/18 ymlaen.

Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth ardderchog o'i alw ym mhob maes. Mae galw wrth galon dealltwriaeth y llu o sut mae'n gweithredu, sut mae'n cynllunio a sut mae'n adleoli. Mae uwch-swyddogion yn deall eu data galw a'r effaith mae'r gwahanol fathau o alw (e.e. mewnol, cudd, rhagweithiol) yn ei chael ar y llu, ei bartneriaid a'r cyhoedd.

Mae'r llu'n dechrau defnyddio ei ddata i ddeall tueddiadau ac i anfon swyddogion o flaen llaw er mwyn diwallu galw a ragwelir. Mae'n gweithio'n dda gyda phartneriaid ar lefel uwch er mwyn sicrhau cyfrifoldeb casgliadol am alw, a bod galw a gamgyfeirir yn cael ei ddeall a'i osgoi. Mae'r llu'n defnyddio ei adnoddau'n effeithiol i reoli galw cyfredol ac yn defnyddio ei ddealltwriaeth o alw i ddyrannu adnoddau'n gywir. Mae ganddo systemau yn eu lle i ddeall bylchau a galluoedd ei weithlu, sydd yn golygu y gall gydweddu sgiliau gweithredol mewn amser real â galw ac sydd yn caniatáu am gynllunio ac adleoli adnoddau ar gyfer y tymor hwy. Hefyd mae'r llu'n adolygu'r effaith mae newidiadau'n ei chael ar y gwasanaeth mae'n ei ddarparu.

Mae'r llu wedi datblygu cydweithrediadau cryf â lluoedd eraill, diwydiant preifat a chymunedau lleol er mwyn delio â galw yn fwy effeithlon. Mae'n cynllunio'n weithredol ar gyfer galw yn y dyfodol ac yn cymryd i gyfrif foddhad y cyhoedd yn y cynlluniau hyn. Mae'r llu'n cynllunio i weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat mewn ffordd fwy cynhywsfawr a chywir.

Dylai cynlluniau buddsoddi'r llu arwain at effeithlonrwydd mwy a gwelliant yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r llu'n adrodd, erbyn 2019/20, ei fod yn bosibl y bydd yn wynebu bwch cyllidebol o £10.2m ar gyfer referniw ac £17m ar gyfer cyfalaf ag ond ychydig neu ddim wrth gefn ac £9m o ran cronfeydd cyffredinol.

**Mae cyfieithiadau o'r adroddiadau llawn ar gael ar gais:**

[contact@hmic.gsi.gov.uk](mailto:contact@hmic.gsi.gov.uk)